# Cyfarfod agoriadol Grŵp Ecosystem Coetiroedd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

21 Ebrill 2009,
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd

Yn bresennol
Chris Tucker – Comisiwn Coedwigaeth Cymru - Cadeirydd
Richard Crompton – Grŵp Mamaliaid Cymru (Cadwraeth Ystlumod) - RC
Lynda Makepeace – Yr Adran Materion Gwledig - LM
Liz Halliwell – Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) - LH
Lewis Winks – Canolfan y Dechnoleg Amgen -LW
Chris Smith – Parc Cenedlaethol Eryri - CS
Jerry Langford – Coed Cadw - JL
David Jenkins – Coed Cymru - DJ
Nigel Ajax Lewis – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru - NAL
Jim Latham – Cyngor Cefn Gwlad Cymru – JL/CCGC
Dave Lamacraft – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru - DL
Jane Holloway – Comisiwn Coedwigaeth Cymru – cofnodion

Ymddiheuriadau
Reg Thorpe – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
Sheila Spence – Grŵp Ffyngau Gwent
Celia Thomas – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Kath McNulty - ConFor
Peter Jenning – Dŵr Cymru
Sarah Miller – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Sian Whithead – Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Trevor Dines – Plantlife Wales

Bryn Griffith – Cyngor Sir Gwynedd (aelod newydd posibl)

1. Cyflwyniadau
Agorodd y Cadeirydd, Chris Tucker, y cyfarfod a gofynnodd i bawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain ac egluro'r hyn yr oeddent am ei gael o'r grŵp.

2. Aelodaeth y Grŵp – A ddylid cynnwys unrhyw un arall?
Dylid anfon e-bost at Chris Tucker gydag enwau unrhyw un arall a ddylai gael ei gynnwys yn y grŵp hwn.

3. Cylch Gorchwyl – Gweler y ddogfen Delivery of UK Biodiversity Priority Habitats and Species in Wales sydd ynghlwm yn atodiad 1 (II).

Bydd y grwpiau hyn yn tynnu ynghyd y sawl y mae a wnelont â chynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig perthnasol ar lefel Cymru. At ei gilydd, byddant yn cynnwys arbenigwyr o gyrff, sefydliadau anllywodraethol a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol perthnasol, a byddant yn gyfrifol am hybu'r gwaith o gyrraedd targedau o ran cynefinoedd â blaenoriaeth, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â rhywogaethau perthnasol drwy nodi'r camau gweithredu pwysicaf sy'n ofynnol gan y grŵp cyfan, a'u cyflawni lle bo hynny'n briodol.

Chris Smith (CS) – a yw gosod targedau yn rhan o'n cylch gwaith? – Cadeirydd – gallwn osod targedau ond rhaid i ni gynnwys targedau presennol hefyd.
Gallwn ddweud p'un a ydym yn credu bod modd cyrraedd targedau, neu a oes angen eu hailasesu hefyd.

Gofynnodd CS i'r targedau gael eu dosbarthu i'r grŵp. Ceir llawer o ddryswch o ran targedau ac mae angen diffinio eu hystyr, sut mae coetir yn cael ei ddiffinio yn ein gwaith? Porfeydd mewn Coetir/gwrychoedd/parcdiroedd ac ati?

Lewis Winks (LW) – mae'n destun pryder nad yw targedau'n cael eu defnyddio yng nghyswllt coetiroedd ar ffermydd. Cytunodd y Cadeirydd y dylem edrych ar hyn hefyd.
Gofynnodd LW am gnydau biomas y gellid eu cael ar goetir a gaiff ei ffermio.
David Jenkins (DJ)– coetir a gaiff ei reoli – coedlan
Jerry Langford (JL) – teimlo y dylem edrych ar yr adnodd cyfan –
Mae llawer o rywogaethau i'w cael mewn sawl amgylchedd a sut y caiff hyn ei wneud? Byddwn yn trafod hyn o ran y Grŵp Rhywogaethau.
JL - eglurodd ei fod yn gofyn a ddylid uno rhai o'r grwpiau – mae hyn yn fater sy'n codi o hyd.
Cadeirydd – mae'r strwythur wedi bod yn cael ei drafod ers mwy na blwyddyn – mae angen codi hyn ar lefel y Grŵp Llywio. Os oes gennym broblemau penodol, mae angen i gadeirydd y grŵp hwn a chadeirydd y grŵp sydd dan sylw gyfarfod i drafod hyn. Mae Cadeiryddion pob grŵp yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.
Gofynnodd Richard Crompton (RC) - Os ydym yn teimlo bod problemau o ran coetiroedd, ni ddylem deimlo ein bod yn cael ein cyfyngu i'r grŵp hwn yn unig?
Mae'r Cadeirydd yn credu bod hyn yn iawn.
DJ – 124,000 hectar o Goetir Brodorol. – Nid yw'n nodi beth yw'r cyflwr? Cadeirydd – nac ydyw – targed Cymru ar gyfer 2015 yw sicrhau bod 35,000 mewn cyflwr ffafriol – mae DJ yn teimlo ein bod eisoes wedi cyrraedd y targed hwn ac y dylid ei adolygu.
Dave Lamacraft (DL) – Sut y caiff cyflwr ffafriol ei bennu?
Jim Latham (JL/CCGC) – nid ydym erioed wedi cael ymateb cydlynus –rhaid i ni nodi beth y mae ei angen ymhle.

Symudodd y Cadeirydd ymlaen i drafod yr hyn y gofynnir i'r Grwpiau Ecosystem ei wneud:

1. Hybu'r gwaith o gyrraedd targedau o ran cynefinoedd a rhywogaethau
   - Gosod amcanion/targedau (gan gynnwys targedau CAMPUS presennol) ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau perthnasol, ar lefel Cymru ac ar lefel Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
   - Adolygu targedau morol presennol, a gosod targedau ar lefel Cymru ac ar lefel Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
   - Blaenoriaethu'r camau gweithredu pwysicaf y mae angen eu cyflawni ar frys i ddiwallu anghenion cyfunol y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn y grŵp cyffredinol.
   - Sbarduno newid i hybu gwaith monitro er mwyn gallu adrodd ynghylch cynnydd tuag at gyrraedd targedau o ran cynefinoedd a rhywogaethau.

DL – nid yw'n siŵr a all sefydliadau sy'n rhan o'r grŵp wneud y gwaith monitro oherwydd diffyg adnoddau ac arian.
DJ – mae'n teimlo y dylem ddewis safleoedd y dylid eu monitro, yn enwedig o ran newid yn yr hinsawdd.
Mae angen i ni fonitro ein targedau.
Mae angen i ni fonitro cyflwr.

Nigel Ajax Lewis (NAL) os oes gennym darged o ran cynnal a chadw/os ydym yn sôn am golli coetiroedd, dylem ofyn i Awdurdodau Lleol roi gwybod am golli coetiroedd ac ati –
DJ - dim ond flynyddoedd yn ddiweddarach y bydd y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed yn dangos colled oherwydd ei hamserlen. Hwyrach y bydd y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed yn nodi bod y cyfansymiau yn gadarnhaol ond a oedd yr hyn a gollwyd yn wreiddiol yn well na'r hyn a ailblannwyd?
Mae adroddiadau/gwaith monitro wedi'u cwblhau ac mae angen casglu'r wybodaeth hon ynghyd.

- Nodi cyfleoedd ar gyfer cael adnoddau a chydlynu ceisiadau am ymchwil neu weithredu.

Cadeirydd – Mae angen i bawb ystyried hyn.

- Nodi meysydd â blaenoriaeth ar gyfer sicrhau gwelliannau o ran bioamrywiaeth a gwella cysylltedd ar raddfa'r dirwedd a'r forwedd.

JL/CCGC – mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn gwneud gwaith ffisegol ar hyn ar hyn o bryd – gwnaed gwaith modelu gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru – mae angen diweddaru hyn yn barhaus ond nid yw wedi'i gwblhau ac mae angen gwneud rhagor o waith.

- Datblygu'r dull ecosystem ymhellach, gan ystyried gwasanaethau ecosystemau a gallu i gynnal rhywogaethau.

Nid yw hynny'n golygu edrych ar safleoedd neu rywogaethau unigol – ond edrych ar ardaloedd ac amcanion mawr – e.e. beth y gall gwaith plannu coetiroedd ei wneud i wella dŵr / arafu llifogydd / coetiroedd gwlyb ac ati.

- Ymgysylltu'n briodol â phartneriaethau lleol i sicrhau bod dulliau cyflawni'n cyd-fynd â'i gilydd.

- Darparu cyngor ynghylch rheoli cynefinoedd i reolwyr tir.

Gall y grŵp gyfrannu at y broses hon a dylanwadu ar Bolisi Comisiwn Coedwigaeth Cymru er enghraifft.
DJ – awgrymodd ein bod yn pennu 2 fater –

- Rheoliadau a chymorth grant
- Cyngor

Trwyddedau torri coed a SoDdGA
LW – mae'n teimlo bod Addysg yn 3ydd mater – nid wedi'i thargedu, ond mewn adrannau e.e. stiwardiaeth tir – Ysgolion Coedwig ac ati – os daw'r arian i ben, beth fydd ar ôl? Sut y bydd pethau'n datblygu?

DL – teimlo ein bod ni i gyd yn rhoi cyngor, ond nad yw bob amser yn gyson, felly a ddylem gydlynu cyngor am Reoli Cynefinoedd?
DJ – a oes modd cyflawni hyn?
DL – nid yw'n siŵr ond mae'n teimlo bod hwn yn bwynt pwysig.
Mae angen i ni ddylanwadu ar y bobl hynny sy'n gweithio ar lawr gwlad ac yn rhoi cyngor – llywio pobl – nodi meysydd y gallwn gytuno arnynt.

2. Cysylltu â grwpiau ecosystem perthnasol eraill lle gallai dulliau gweithredu ar y cyd fod o fantais.

3. Nodi bylchau mewn gwybodaeth a naill ai mynd i'r afael â hwy yn uniongyrchol, neu roi argymhellion i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ynghylch sut y gellid eu llenwi.

4. Nodi rhwystrau polisi, a thrwy gynrychiolaeth ar y Grŵp Polisi, helpu i sbarduno'r gwaith o ddatblygu polisi a monitro canlyniadau.

Proses Coetiroedd Gwell i Gymru – hoffai'r grŵp gael y wybodaeth ddiweddaraf.

5. Cydlynu gwaith adrodd yn ôl ynghylch cynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig.
   - Pennu aelod o'r grŵp i arwain ar adrodd yn ôl.
   - Defnyddio System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth i adrodd yn ôl yn erbyn camau gweithredu a thargedau a rhannu gwybodaeth â phartneriaid gan gynnwys Partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol;

RC – A ydym yn cael ein cynrychioli ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth? Mae rhai aelodau o'r grŵp yn pryderu gan fod sawl sefydliad yn cael ei gynrychioli ar y grŵp hwn – sut mae adrodd yn ôl am hyn a'i fonitro? Mae'r Cadeirydd yn cyfarfod â Juliet ………. o'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth cyn hir i drafod y pwynt hwn.

   - Cysylltu â Phartneriaid Arweiniol ar gyfer adrodd ynghylch rhywogaethau'r DU.

6. Sicrhau cynrychiolaeth ar unrhyw grŵp cynefinoedd trosfwaol ar lefel y DU a sefydlwyd gan Bwyllgor Sefydlog y DU ar Fioamrywiaeth.

Mae JL/CCGC yn aelod o Grŵp Coetiroedd Brodorol y DU ac mae'n fodlon cynrychioli'r grŵp hwn hefyd, ynghyd â Chris Tucker sy'n aelod o'r grŵp hefyd.

Grŵp Coetiroedd a Phorfeydd y DU – gofyn i Helen Buckingham fod yn gynrychiolydd ar y grŵp hwn.

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker
Bydd y Cadeirydd yn gofyn i Helen Buckingham gynrychioli'r grŵp ar Grŵp Coetiroedd a Phorfeydd y DU

Pwynt Gweithredu – Pawb

- Os oes unrhyw feysydd yr hoffech ymhelaethu arnynt o ran y Cylch Gorchwyl, anfonwch hwy at Jane Holloway – jane.holloway@forestry.gsi.gov.uk yna cânt eu dosbarthu i'r grŵp.

Pwyntiau Gweithredu – Chris Tucker

- Anfon targedau a chanlyniadau a gwybodaeth monitro o'r tudalennau Adrodd am Weithredu at aelodau'r grŵp

- Darparu manylion am y broses newydd ar gyfer Coetiroedd Gwell i Gymru (Bydd Chris yn siarad â Rachel Chamberlain ac yn adrodd yn ôl)

Gofynnodd Chris Smith (CS) beth oedd y broses ar gyfer rhoi adborth am Goetiroedd Gwell i Gymru – nid yw'r Cadeirydd yn rhagweld problem o ran mynd yn ôl gydag awgrymiadau am rwystrau posibl ac ati. Bydd yn cyflwyno sylwadau i'r Grŵp Polisi os oes angen.

Mae cronfa ddata gan Goetiroedd Gwell i Gymru – Beth a gaiff ei adrodd/fonitro?

4. Camau gweithredu/targedau o ran cynefinoedd

Coetir Brodorol – (rai blynyddoedd yn ôl, roedd grŵp cynghori ynghylch polisi coetir brodorol yn bodoli – Comisiwn Coedwigaeth Cymru oedd yn ei arwain – y Cyngor Cefn Gwlad/yr Ymddiriedolaeth Natur ac ati). Y canlyniad oedd diffiniadau a sail i dargedau – maent bellach ar gael ar y wefan. – Darllenodd y Cadeirydd y telerau y cytunwyd arnynt. Gweler atodiad 1.

Dolen gyswllt i wefan Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth
http://www.ukbap.org.uk/

Dywedodd CS na ddylem gyfyngu Bioamrywiaeth.
Coetir hynafol / Coetir brodorol
Targed Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth – Cynnal arwynebedd net coetiroedd brodorol yn y DU – yn Lloegr, mae'n 80%.

Mae RC yn teimlo y dylem fwrw ymlaen â'r diffiniad sydd gennym ac na ddylem ei newid oni bai ein bod yn dod ar draws problemau.

JL/CCGC – Rhestr Coetiroedd Hynafol – mae'r Cyngor Cefn Gwlad /Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Choed Cadw yn archwilio 1800 o fapiau EPOC– mae'r rhain yn ddelweddau digidol bellach a gellir eu creu ar gyfer y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed. Mae astudiaeth beilot wedi'i chynnal gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru/y Cyngor Cefn Gwlad, (ariannwyd y cynllun peilot gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru) yn cysylltu Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed rhif 2 – mapio Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol a Choetir Lled-naturiol– mae'r canlyniadau yn dangos cynnydd o tua 10% yn y Rhestr Coetiroedd Hynafol.

Roedd y grŵp hwn yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnal yr astudiaeth lawn yn awr a chytunodd y grŵp ar hyn.

Pwynt Gweithredu – Jim Latham
Bydd Jim Latham yn dosbarthu'r adroddiad i'r grŵp

Cyflwr / cyflwr ffafriol
ACA Coetiroedd
Cynllun grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru
Cynhelir arolwg o gefn gwlad bob 10 mlynedd

Pwynt Gweithredu – Pawb
Pa arolygon sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd?
Anfonwch fanylion at Jane Holloway er mwyn iddi gydlynu rhestr.

Rôl y grŵp hwn yw darparu gwybodaeth sy'n sail i benderfyniadau a wneir dan y system gynllunio.

JL/CCGC – efallai y dylem ystyried beth yw'r cyflwr ar draws y rhanbarth.
Mae DJ yn teimlo y dylid gwneud hyn fesul safle.

Lynda Makepeace (LM) – Dylid gadael y gwaith o fonitro safleoedd i'r sefydliad/corff ariannu/efallai y dylem edrych ar darged ar gyfer monitro. Dylem edrych ar fygythiadau hefyd.

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker
Bydd y Cadeirydd yn dosbarthu papur ar asesu cyflwr – i'r grŵp gynnig sylwadau arno.

Targedau ac unrhyw dargedau ychwanegol

5. Rhywogaethau - gwaith cyfeirio
Grŵp Mamaliaid Cymru – grŵp rhanbarthol – Richard Crompton
Mae grŵp Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd – Jean Matthews – y Cyngor Cefn Gwlad.

Dangosodd y Cadeirydd ddrafft o daenlen targedau a chamau gweithredu grŵp mamaliaid Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – eglurodd Liz Halliwell (LH) y daenlen wrth y grŵp. – Byddwn yn cael dogfennau fel hyn gan yr amryw grwpiau. Yna bydd angen i ni gynnig adborth arnynt ac ystyried hyn wrth edrych ar gamau gweithredu a thargedau.

Eglurodd y Cadeirydd fod gan y grŵp hwn rywfaint o fewnbwn ar y grŵp Rhywogaethau. Bydd y grŵp rhywogaethau yn nodi canlyniadau allweddol ac yna bydd yn mynd ymlaen i'r grŵp Cynefinoedd i gael eu blaenoriaethu.
Mae gwaith cyfeirio'n cael ei wneud o ran rhestr Adran 42. Adran 42 - 547 rhywogaeth i Gymru.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cwblhau'r dasg hon ac wedi gweld bod gan fwy na 200 gysylltiad â choetiroedd.

- Cynllun Cadwraeth Gwiwerod Coch

Mae gwaith presennol yn mynd rhagddo yng Nghymru. Sut y dylem fynd ati i gydblethu eu gwaith, edrychwyd ar hyn yn rhan o Bartneriaeth Gwiwerod Cymru.
Rhoddodd LH y wybodaeth ddiweddaraf o'r cyfarfod gan drafod y Cynllun Cadwraeth drafft ar gyfer Gwiwerod Coch. Hoffai Liz i'r grŵp hwn edrych ar y drafft.

Pwynt Gweithredu – Liz Halliwell
Anfon Cynllun Cadwraeth drafft ar gyfer Gwiwerod Coch i'r grŵp gael rhoi sylwadau arno

Byddai rheoli gwiwerod llwyd o fantais i sawl rhywogaeth, nid dim ond gwiwerod coch a choetiroedd yn gyffredinol.

DL - mae'n debyg y gallwn ddylanwadu ar lawer o goetiroedd yng Nghymru oherwydd y cynrychiolwyr sy'n aelodau o'r grŵp.

Mae'r Cadeirydd yn awgrymu – Rhywogaethau sy'n hynod brin, dylid anfon hyn i lawr i lefel leol i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol weithredu arnynt, neu'r Ecolegydd lleol neu'r FD. Yna dylai rhywogaethau sydd ar restr Adran 42 ac y mae eu niferoedd yn lleihau fod yn flaenoriaeth, bydd rhai yn llai o flaenoriaeth. Dylem fynd at y grŵp arbenigol ar rywogaethau i gael arweiniad, neu byddwn yn cael pob un o'r 547 o rywogaethau.

JL – Materion ehangach – bygythiadau ar lefel uwch i fioamrywiaeth – llygredd/hinsawdd

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker
Gofyn am fap gan y Grŵp Rhywogaethau yn dangos rhywogaethau a materion lleol y gall timau rheoli lleol fynd i'r afael â hwy (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol).

6. Materion Allweddol sy'n Sbarduno Polisi
Beth yw'r 5 peth allweddol sy'n sbarduno ein polisi? Enillion o ran bioamrywiaeth coetiroedd?

- Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd
- Cynyddu bioamrywiaeth coetiroedd
- Sicrhau bod coetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy
- Cynlluniau grant da – wedi eu targedu mewn modd gofodol – symleiddio'r broses – targedu grantiau a chymhellion – yn agored i bawb – annog pobl mewn parthau nad ydynt wedi cyflwyno cais
- Creu ac adfer cynefinoedd - coetiroedd neu gynefinoedd eraill. (JL)
- Monitro
- Monitro Coetiroedd Gwell i Gymru
- Marchnadoedd ar gyfer pren – Pren caled/pren meddal/pren tanwydd
- Llygredd
- Adfer Gwiwerod Coch yn ardal Gŵyr (DJ)
- Adfer pob coetir hynafol (JL)

Eglurodd JL – safon Cynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig – perchnogion coetiroedd ardystiedig, bydd yr archwilydd yn gofyn cwestiynau. E.E. sut yr ydych yn cydymffurfio â'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac ati, byddant yn gofyn y cwestiwn ac os yw'r ymateb yn addas, bydd hynny'n iawn.

7. Cyswllt â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
Bryn Griffiths – Cyngor Sir Gwynedd (Gogledd Cymru)
Pwy fydd yn cynrychioli De Cymru?

Pwy hoffai fod yn gyswllt i ni â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol?

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker
Bydd y Cadeirydd yn trafod â Bryn Griffiths

8. Newid yn yr Hinsawdd – i'w drafod eto

Mae'r Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd wedi creu adroddiad am Pontbren. Gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod
http://www.floodrisk.org.uk/index.php?option=com_content&view=article&id=48&Itemid=50

9. Unrhyw fater arall

Gwefan i'r grŵp? Gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru? Gwefan Canolfan y Dechnoleg Amgen?

Ar gyfer yr agenda nesaf
Porfeydd mewn coetir a Pharcdir
Hen goed

Ceisiadau am Strategaeth Coetiroedd i Gymru – cysylltwch â Jane Holloway â'ch cyfeiriad a nifer y copïau y mae eu hangen arnoch. Neu gellir lawrlwytho'r pdf o'r ddolen gyswllt isod
http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7GDE7A

10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfodydd yn ôl y galw
Cyfarfod nesaf ym mis Hydref
Nid ar ddydd Llun na dydd Gwener na'r 6^ed^ a'r 7^fed^ ac nid yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 26^ain^

Atodiad 1

| |
|---|
| T1 Cynnal arwynebedd net coetiroedd brodorol yn y DU, (dim colled net o 1,000 kha).<br>[targed a rennir ar gyfer pob coetir â blaenoriaeth] |

| Math o darged | Cynnal arwynebedd | Unedau | Hectarau | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerthoedd targed (targedau 2005 yw'r gwaelodlin) | | | | | |
| Gwlad | 2005 | 2010 | 2015 | 2020 | 2030 |
| **Y DU** | 1058721 | 1058721 | | | |
| **Lloegr** | 535000 | 535000 | | | |
| **G Iwerddon** | 8380 | 8380 | | | |
| **Yr Alban** | 391000 | 391000 | | | |
| **Cymru** | 124341 | 124341 | | | |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Ychwanegol | Diffiniadau a sail i'r targedau: Y diffiniad gweithredol o goetir brodorol fydd: Coetir lle mae o leiaf 80% o'r canopi yn cynnwys rhywogaethau sy'n gweddu i'r safle ac sydd yn eu cynefin naturiol, gan ystyried hanes a'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Ceir diffiniadau o'r hyn y mae coetir brodorol yn ei olygu yng nghyswllt y Cynllun Gweithredu er Gwarchod Cynefinoedd yn Nodyn Cyfarwyddyd 20 Comisiwn Coedwigaeth yr Alban. Mae pob un o'r 7 Cynllun Gweithredu er Gwarchod Cynefinoedd sy'n berthnasol i goetiroedd brodorol wedi eu cyfuno'n un set o dargedau cyffredinol ar gyfer coetir brodorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod continwwm deinamig yn bodoli rhwng mathau o goetiroedd. Penderfynwyd bod pennu targedau ar gyfer mathau unigol yn afrealistig o fanwl, yn rhy gymhleth ac yn rhy gaeth. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn glastwreiddio'r pwyslais a roddir ar natur frodorol coetiroedd ac ar sicrhau'r math iawn o goetir ar gyfer pob safle unigol. Gweler manylion am wledydd unigol isod: LLOEGR: Mae cyfanswm arwynebedd y coetiroedd brodorol presennol yn rhyw 535,000 ha (arwynebedd o goetir collddail a roddir yn y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed). Mae hyn yn cynnwys y categorïau canlynol: 200,000 ha o Goetir Hynafol Lled-naturiol (cyfartaledd a gyfrifwyd ar sail sawl ffigur o'r Rhestr Coetiroedd Hynafol a'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed: 193 - 205 kha); 284,000 ha o goetir lled-naturiol nad yw'n hynafol (>80% coed collddail); 51,000 ha o Blanhigfeydd collddail (neu wedi'u hadfer) ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed am Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol). Er mai dim ond gofyn i enillion fod yn fwy na cholledion y mae'r targed sylfaenol ar gyfer coetir nad yw'n hynafol, bydd angen monitro'r agweddau canlynol: • lefel a chyfradd y newid mewn ardal o goetir brodorol; • y newid i gynefinoedd eraill â blaenoriaeth yn hytrach nag i ddefnydd tir arall (gyda'r nod o sicrau nad oes colled net o safbwynt cynefinoedd lled-naturiol); • y cyfnewid sylweddol tebygol rhwng coetiroedd brodorol a phorfeydd mewn coetir yn y Cynllun Gweithredu er Gwarchod Cynefinoedd; • arwynebedd y coetir fel clytiau neu ardaloedd deinamig mewn cynefinoedd eraill. YR ALBAN: Mae cyfanswm arwynebedd y coetiroedd brodorol presennol yn rhyw 391,000 ha. Mae hyn yn cynnwys y categorïau canlynol: 178,000 ha o Goetir Hynafol Lled-naturiol (147kha coed collddail/31kha coed pinwydd brodorol); 212,000 ha o ardaloedd a blannwyd (62kha coed collddail/150 coed pinwydd brodorol). Mae'r targed yn golygu na ddylid gweld dim newid net yn yr arwynebedd presennol (dim colled net). CYMRU: Mae cyfanswm arwynebedd y coetiroedd brodorol presennol yn rhyw 124,300 ha. Mae'r gwerthoedd targed yn rhagdybio y bydd pob ardal o goetir brodorol (lled-naturiol a phlanedig) yn cael ei chynnal. Dylai pwyslais y polisi fod ar sicrhau nad yw coetir brodorol presennol yn cael ei golli. Dylid rhagdybio mai bach iawn a gollir ac mai dim ond pan fydd budd sylweddol i'r cyhoedd y caiff ei ganiatáu. GOGLEDD IWERDDON: Cyhoeddodd Grŵp Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon gynlluniau gweithredu ar gyfer coetir brodorol ym mis Mawrth 2005. Ceir manylion pellach ar y wefan ganlynol: www.ehsni.gov.uk/natural/biodiversity/hap_ni.shtml. |
| Gwybodaeth am waith monitro | LLOEGR: mapiau digidol y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed; ystadegau defnydd tir gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a data Coed Cadw ynghylch coedwigoedd sydd dan fygythiad. Bydd angen i gynlluniau grant a rhestrau gofnodi digon o fanylion er mwyn gallu amcangyfrif statws mathau unigol o goetiroedd sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu er Gwarchod Cynefinoedd ar gyfer adrodd ar lefel y DU. CYMRU: bydd arwynebedd coetiroedd brodorol yn cael ei fesur drwy'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed a luniwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth. Nid oedd |

| | |
|---|---|
| | Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed 1995-1999 yn mesur coetiroedd brodorol yn llawn ond gellid llunio amcangyfrif. Dylai Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed rhif 2 (a fydd ar gael yn 2005/6) fesur arwynebedd coetiroedd brodorol, ond ni fydd amcangyfrifon ar gael ar gyfer pob math o goetir brodorol yng Nghymru oherwydd maint y sampl. Amlder: 5-10 mlynedd. |

## T2

Cynnal arwynebedd a dosbarthiad presennol coetir hynafol lled-naturiol, sy'n cael ei ystyried yn goetir brodorol yn y DU, (dim newid yn yr arwynebedd presennol, sef 403 kha). [targed a rennir ar gyfer pob coetir â blaenoriaeth]

| Math o darged | Cynnal arwynebedd | Unedau | Hectarau |
|---|---|---|---|

| Gwerthoedd targed (gwerthoedd 2005 yw'r gwaelodlin) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwlad | 2005 | 2010 | 2015 | 2020 | 2030 |
| Y DU | 403400 | 403400 | | | |
| Lloegr | 251000 | 251000 | | | |
| G Iwerddon | | i'w gadarnhau | | | |
| Yr Alban | 118000 | 118000 | | | |
| Cymru | 34400 | 34400 | | | |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ychwanegol | Mae cyfanswm arwynebedd y coetiroedd brodorol yn y DU yn rhyw 1, 055,000 ha (400,000 ha o goetir hynafol lled-naturiol). Mae'r targed yn golygu na ddylid gweld dim newid yn yr arwynebedd presennol (colli dim coetir hynafol lled-naturiol). LLOEGR: Felly, mae cyfanswm arwynebedd y coetir hynafol sy'n cael ei ystyried yn goetir brodorol yn 251,000 ha; ac mae cyfanswm arwynebedd coetir brodorol arall yn 284,000 ha. Cyfanswm arwynebedd y Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yw 140,000 ha ond dim ond 50,000 ha sy'n cael ei ystyried yn goetir brodorol ar hyn o bryd. YR ALBAN: Dylai rhywogaethau brodorol ffurfio o leiaf 80% o'r canopi a dylai'r adnodd gynnwys coed lled-naturiol a choed a blannwyd. Mae cyfanswm arwynebedd y coetiroedd brodorol presennol yn rhyw 391,000 ha. Mae hyn yn cynnwys y categorïau canlynol: 178,000 ha o goetir hynafol lled-naturiol (147kha coed collddail/31kha coed pinwydd brodorol); 212,000 ha o goed a blannwyd (62kha coed collddail/150 coed pinwydd brodorol). Mae'r targed yn golygu na ddylid gweld dim newid yn yr arwynebedd presennol (colli dim coetir hynafol lled-naturiol). |
| Gwybodaeth am waith monitro | LLOEGR: mapiau digidol y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed; ystadegau defnydd tir gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a data Coed Cadw ynghylch coedwigoedd sydd dan fygythiad. YR ALBAN: Diweddaru'r gwaelodlin gydag Arolwg Coetir Brodorol yr Alban. Caiff y gwaith diweddaru ei wneud drwy Arolwg Coetir Brodorol yr Alban a / neu Restr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed rhif 2 ac ati. |

T3

Sicrhau bod 565.7 kha (53%) o goetir brodorol yn y DU mewn cyflwr ffafriol neu gyflwr sy'n gwella erbyn 2015. [targed a rennir ar gyfer pob coetir â blaenoriaeth]

| Math o darged | Sicrhau cyflwr | Unedau | Hectarau |
|---|---|---|---|

| Gwerthoedd targed (gwerthoedd 2005 yw'r gwaelodlin) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwlad | 2005 | 2010 | 2015 | 2020 | 2030 |
| Y DU | | 496650 | 565780 | 599660 | 617420 |
| Lloegr | | 350000 | 375000 | 400000 | 400000 |
| G Iwerddon | | i'w gadarnhau | 5250 | 5250 | 5250 |
| Yr Alban | | 120000 | 150000 | 150000 | 150000 |
| Cymru | | 26650 | 35530 | 44410 | 62170 |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ychwanegol | LLOEGR: I gyrraedd y targed hwn, i ddechrau byddai angen gwella 1% o'r coetiroedd brodorol ar gyfartaledd h.y. tua 5300 ha y flwyddyn. Yn fwy cywir, mae'n golygu dechrau gwaith bob blwyddyn mewn 5300 ha a fydd, ymhen amser, yn golygu y bydd y safle mewn cyflwr ffafriol. Mae'n debyg y bydd parhau â gwaith mewn ardaloedd y mae eu cyflwr yn gwella yn dasg yr un mor fawr. YR ALBAN: Y targed yw sicrhau bod 6,000ha y flwyddyn yn cael eu rheoli dros y cyfnod sy'n arwain at 2015, yn seiliedig ar ddyhead yn y tymor hir i sicrhau bod 240,000 ha mewn cyflwr ffafriol erbyn 2030. Bydd hyn yn golygu y bydd angen rheoli ardal ychwanegol o 6,000 ha y flwyddyn i sicrhau ei fod mewn cyflwr gwell. Mae'r rhain yn seiliedig ar y rhagdybiaethau y bydd 100% o safleoedd dynodedig a choetir hynafol lled-naturiol, 80% o goetiroedd lled-naturiol eraill a 60% o goetiroedd a blannwyd (40% o blanhigfeydd pinwydd) mewn cyflwr ffafriol (neu anffafriol ond yn gwella) o ran ecoleg erbyn 2030. Mae'r gyfradd is ar gyfer coetiroedd a blannwyd yn cydnabod y bydd llawer o goetiroedd brodorol planedig (gan mwyaf) yn parhau i gael eu creu a'u rheoli yn bennaf ar gyfer amcanion eraill ac na fydd disgwyl iddynt gyrraedd cyflwr da o reidrwydd o ran bioamrywiaeth. Mae'r gyfradd o 40% ar gyfer pinwydd yn adlewyrchu natur fwy masnachol planhigfeydd pinwydd. CYMRU: mae'r targed yn cyfeirio at yr holl goetiroedd brodorol h.y. >=50% rhywogaethau coed brodorol yn y canopi. Bydd y targed yn mesur y cyflwr fel y disgrifir ym mhapur Keith Kirby: 'Condition Assessment for Native Woodland HAP purposes'. Mae'n cynnwys nifer o ffyrdd o fesur cyflwr gan gynnwys cyfansoddiad coed a llwyni, fflora ar y ddaear, strwythur coetiroedd (e.e. nifer yr 'haenau' fertigol, mannau agored, pren marw), potensial ar gyfer adfywio, a chadw ffiniau a nodweddion diwylliannol. Cyfeirir at ardaloedd fel 'coetir brodorol'. Bydd y cyflwr yn ffafriol neu'n anffafriol. Mae'r gwerthoedd targed yn rhagdybio y bydd 50% o'r holl goetiroedd brodorol mewn cyflwr ffafriol erbyn 2030. Dangosir y cynnydd fesul blwyddyn ar ffurf llinell syth. |
| Gwybodaeth am waith monitro | LLOEGR: data o sgwariau sampl y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed; wedi'i ategu gan arolygon penodol eraill. YR ALBAN: Bydd cynnydd yn y dyfodol o ran gwaith adfer yn cael ei gofnodi drwy gronfeydd data'r Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer coetiroedd preifat a'r ystâd goedwigoedd genedlaethol. CYMRU: Bydd yr asesiad o gyflwr a awgrymir yn 'Condition Assessment for Native Woodland HAP purposes' yn cael ei gynnal o fewn y fersiynau o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed a gyhoeddir yn y dyfodol. Dylai fod yn bosibl amcangyfrif y cyflwr ar sail Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed 1995-1999. Amlder: 5-10 mlynedd |

T4

Adfer 50.3 kha o blanhigfeydd anfrodorol ar safleoedd coetir hynafol i fod yn goetir brodorol yn y DU erbyn 2015. [targed a rennir ar gyfer pob coetir â blaenoriaeth]

| Math o darged | Adfer | Unedau | Hectarau |
|---|---|---|---|

Gwerthoedd targed (gwerthoedd 2005 yw'r gwaelodlin)

| Gwlad | 2005 | 2010 | 2015 | 2020 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y DU | | 26880 | 50330 | 82555 | 85020 |
| Lloegr | | 19000 | 36000 | 67000 | 67000 |
| G Iwerddon | | 180 | 420 | 420 | 420 |
| Yr Alban | | 4000 | 9000 | 9000 | 9000 |
| Cymru | | 3700 | 4910 | 6135 | 8600 |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ychwanegol | LLOEGR: Erbyn 2020 bydd 85% o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn perthyn i un o'r categorïau canlynol: eisoes yn gollddail, wedi'i adfer yn llawn, wrthi'n cael ei adfer neu wrthi'n cael ei warchod. I gyrraedd y targedau adfer, bydd angen torri ac ailstocio tua 1000 ha y flwyddyn a theneuo tua 3000 ha y flwyddyn. Targed ychwanegol ar gyfer 2020 yw sicrhau bod 14 kha arall o'r Planhigfeydd conifferaidd neu gymysg ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn cael eu rheoli mewn modd sy'n gwarchod ac yn gwella bioamrywiaeth. YR ALBAN: Mae'r targed yn golygu adfer 1000ha y flwyddyn o Blanhigfeydd anfrodorol ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol rhwng 2006-2015. Mae hyn yn seiliedig ar nod hirdymor o adfer 70% o Blanhigfeydd anfrodorol ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (tua 25,000ha) yn llawn i goetir brodorol erbyn 2050 gyda 15,000ha yn cael ei gyflawni erbyn 2030. 1) bydd y gwaith adfer wedi'i gyflawni pan fydd Planhigfeydd anfrodorol ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol wedi eu hadfer yn llawn i gyfansoddiad coetir brodorol a phan na fydd angen unrhyw weithredu mawr pellach (=ffafriol/anffafriol ond yn gwella). 2) gellir cofnodi ardal lle mae gwaith yn mynd rhagddo fel ardal carreg filltir lle mae mwy na 50% o'r safle yn frodorol (=rhan o holl adnodd y Cynllun Gweithredu er Gwarchod Cynefinoedd ), a/neu ardal sydd wedi'i dechrau (ardal yn y cynllun y bwriedir gwneud gwaith adfer arni). CYMRU: Ni fydd y targed adfer yn berthnasol ar wahân i Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol lle ceir llai na 50% o rywogaethau brodorol yn y canopi. Pan fydd gan Blanhigfa ar Safle Coetir Hynafol fwy na 50% o rywogaethau brodorol yn y canopi ystyrir ei bod wedi'i hadfer a bydd yn ffurfio rhan o'r adnodd coetiroedd brodorol, er y gallai fod mewn cyflwr anffafriol o hyd. Mae'r gwerthoedd targed yn rhagdybio y bydd 50% o'r holl Blanhigfeydd anfrodorol ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol wedi cwblhau'r broses adfer erbyn 2030. Arwynebedd Planhigfeydd anfrodorol ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol : 17,177 ha. |
| Gwybodaeth am waith monitro | LLOEGR: awyrluniau'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed, cronfeydd data Cynllun Grantiau Coetir Lloegr a'r Comisiwn Coedwigaeth. YR ALBAN: Bydd cynnydd yn y dyfodol o ran gwaith adfer yn cael ei gofnodi drwy gronfeydd data'r Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer coetiroedd preifat a'r ystâd goedwigoedd genedlaethol. CYMRU: Bydd yr asesiad o gyflwr a awgrymir yn 'Condition Assessment for Native Woodland HAP purposes' yn cael ei gynnal o fewn y fersiynau o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a |

| | |
|---|---|
| | Choed a gyhoeddir yn y dyfodol. Dylai asesiad cyflwr o sampl o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol roi gwybodaeth addas i ni am gyflwr safleoedd. Dylai fod yn bosibl amcangyfrif y cyflwr ar sail Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed 1995-1999. O gofio bod gwaith adfer yn cymryd amser mawr, gobeithir y bydd ffynonellau data ychwanegol ar gael yn y dyfodol (drwy arolygon o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol sy’n rhan o goetiroedd y Cynulliad a thrwy GLADE yn achos coetiroedd nad ydynt yn eiddo i’r Cynulliad). Amlder: 5-10 mlynedd |

## T5

Ychwanegu 134.5 kha at goetiroedd brodorol presennol y DU, erbyn 2015. [targed a rennir ar gyfer pob coetir â blaenoriaeth]

| Math o darged | Ehangu | Unedau | Hectarau |
|---|---|---|---|

Gwerthoedd targed (gwerthoedd 2005 yw'r gwaelodlin)

| Gwlad | 2005 | 2010 | 2015 | 2020 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y DU | | 83555 | 134559 | 162625 | 164755 |
| Lloegr | | 26000 | 53000 | 80000 | 80000 |
| G Iwerddon | | 400 | 840 | 840 | 840 |
| Yr Alban | | 53955 | 76455 | 76455 | 76455 |
| Cymru | | 3200 | 4264 | 5330 | 7460 |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ychwanegol | LLOEGR: Mae'r targed yn golygu cynyddu arwynebedd coetiroedd collddail 5300 ha (1%) y flwyddyn. Mae angen i goetir o'r fath gael ei greu mewn lleoliadau lle bydd yn gwella coetiroedd brodorol presennol, yn enwedig coetiroedd hynafol a chynefinoedd eraill â blaenoriaeth. Caiff hyn ei gyflawni drwy: • glustogi cyrion coetiroedd neu gynefinoedd eraill; • ehangu coedwigoedd bach; • ategu ac amrywio strwythur oedran coed mewn coedwigoedd lle ceir coed o oedran tebyg; • cyfrannu at rwydweithiau o gynefinoedd a 'chysylltiadau ecolegol' ar draws tirweddau; • datblygu clystyrau o goetiroedd cysylltiedig; • creu rhai coedwigoedd mawr newydd. YR ALBAN: Mae'r targed yn golygu plannu 4,000 ha y flwyddyn o goetir brodorol newydd yn ogystal â thrawsnewid 500 ha y flwyddyn yn yr Alban rhwng 2006 a 2015. (Daw 400ha y flwyddyn yn ychwanegol o waith adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol ond caiff hynny ei gyfrif dan y targed adfer). Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd coetiroedd yn cael eu hehangu 9-10k ha y flwyddyn ac ar ddyhead i gynyddu cyfran gyffredinol coetiroedd brodorol i gyfateb i 35% o goetir erbyn canol y ganrif. Mae angen gosod targed hirdymor ar gyfer y dyfodol o ran ehangu coetiroedd brodorol yng nghyd-destun gweledigaeth gyffredinol Strategaeth Goedwigaeth yr Alban ar gyfer ehangu coetiroedd. Wrth osod targedau ar gyfer y dyfodol, dylem sicrhau ein bod yn ehangu pob math o goetiroedd brodorol sydd â blaenoriaeth mewn ffyrdd sy'n golygu eu bod yn llai darniog ac sy'n creu rhwydweithiau gwydn o gynefinoedd coedwig, a gaiff eu datblygu o amgylch ardaloedd craidd wedi'u cryfhau o goetir hynafol lled-naturiol a choetiroedd hynafol wedi'u hadfer. Rhaid i bob math o waith ehangu gydymffurfio ag egwyddorion Rhwydweithiau Cynefinoedd Coedwig. CYMRU: Mae'r targed yn cyfeirio at ardaloedd nad ydynt yn goetiroedd ar hyn o bryd. Bydd y targed yn dangos bod coetir brodorol newydd wedi'i sefydlu'n llwyddiannus ar safle lle nad oes coed ar hyn o bryd. Pan fyddant wedi eu sefydlu, cyfeirir ar goetiroedd o'r fath fel 'Coetir Brodorol Newydd' a gallant fod mewn cyflwr ffafriol neu anffafriol. Mae'r gwerthoedd targed yn rhagdybio y bydd coetir brodorol newydd wedi'i sefydlu'n llwyddiannus ar arwynebedd o dir heb goed sydd gyfwerth â 3% o'r arwynebedd o goetir brodorol a oedd yn bodoli yn 1995, a hynny erbyn 2030. |
| Gwybodaeth am waith monitro | LLOEGR: awyrluniau'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed a chronfa ddata'r Cynllun Grantiau Coetir. YR ALBAN: Bydd cynnydd yn y dyfodol o ran gwaith ehangu yn cael ei gofnodi drwy gronfeydd data'r Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer coetiroedd preifat a'r ystâd goedwigoedd genedlaethol. CYMRU: Yng nghoetiroedd y Cynulliad, ychydig iawn o waith ehangu coetiroedd sy'n digwydd ar dir agored ar hyn o bryd. Yn y coetiroedd nad ydynt yn eiddo i'r Cynulliad, gellid talu'r ail grant ar ôl |

| | |
|---|---|
| | sefydlu coetiroedd yn llwyddiannus. Amlder: bob blwyddyn. Yn y dyfodol, bydd angen mesur cyflwr y coetiroedd newydd hyn hefyd a gellid cofnodi hynny ar y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed. Amlder: 5-10 mlynedd. |